Beth mae'r cwrs yn ei gynnig i mi?

Mae'r cwrs Celf a Dylunio yn rhoi cyfle i ddarganfod amrywiaeth eang o bosibiliadau Celf o Gelfyddyd Gain, Graffeg, Tecstiliau, gwaith 3 dimensiwn a photograffiaeth. O fewn yr agweddau hyn mae dewis pellach e.e. arrgraffu, cynllunio ffasiwn, gemwaith.

Sut fyddai'n dysgu?

Mae'r cwrs Celf yn rhoi cyfleoedd i ddisgyblion weithio dan arweiniad yr athro ac i ddod i gasgliadau a dilyn syniadau yn annibynnol. Mae mewnbwn yr unigolyn yn cael ei weld yn hanfodol i lwyddiant yn y pwnc.

Sut fyddai'n cael fy asesu?

Fe asesir y portffolio gwaith cwrs yn rheolaidd ar ddiwedd cyfnod o wersi a chaiff yr unigolyn gyngor ar welliannau yn y broses. Mae'r portffolio yn cyfrannu at 60% o'r TGAU a'r arholiad terfynol yn yr ail flwyddyn yn 40%

Cofiwch!

Mae llwyddiant yn y pwnc yn bosib os yw'r unigolyn yn fodlon rhoi mewnbwn personol ac ymdrech. Gall profiad o Gelf arwain at y gyrfaoedd canlynol:

- Artist sydd yn creu gwaith cyhoeddus,
- Astudiaethau archeolegol,
- Artist,
- Argraffydd,
- Gwneuthurwr Hetiau,
- Cynllunydd Tecstiliau,
- Cynllunydd Ffasiwn,
- Dylunydd Graffeg,
- Pensaer,
- Dylunydd mewnol,
- Cynhyrchydd Fideo,
- Ffotograffiaeth,
- Cynllunydd gwisgoedd,
- Athro,
- Gwaith mewn ffilm,
- Creu "special effects",
- Dylunydd Cynnyrch,
- Graffeg cyfrifiadurol,
- Gwaith gyda plant,
- Trin Gwallt,
- Darlunydd e.e. darlunydd llyfrau.
- Arbenigwr celf mewn oriel neu amgueddfa.

TGAU Celf

Am wybodaeth pellach cysylltwch â:

Mrs. Elin McGowan

Ysgol Eifionydd
Porthmadog